

Brîff Brexit



Plaid Cymru | Party of Wales



Dyma'r wythfed rhifyn o'r Brîff Brexit; gobeithio y gwnewch ei fwynhau. Mae llawer mwy o wybodaeth am yr holl faterion hyn yn [Adran Brexit](#) ein gwefan.

Mae tri rhan i'r Brîff:

- 1) Crynhoi o'r Cynulliad
- 2) O Senedd Ewrop
- 3) Newyddion o Brifddinas yr Ymerodraeth (San Steffan)

Os oes gennych unrhyw adborth, rhowch wybod i ni trwy ebostio post@plaid.cymru.

Crynhoi o'r Cynulliad

Gan ein llefarydd Brexit yn y Senedd Steffan Lewis AC a'r Tîm Cynulliad



Cafodd cynnig ar Bapur Gwyn Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru ar y cyd ar Brexit, [Sicrhau Dyfodol Cymru](#), ei basio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ddydd Mawrth Chwefror 7fed. Mae hyn yn golygu y bydd senedd genedlaethol Cymru yn siarad ag un llais ac yn cadarnhau cyfres o flaenoriaethau ar gyfer trafodaethau Brexit. Mae hyn yn anfon neges gref i San Steffan fod gan Gymru anghenion a gofynion pendant a gwahanol y mae'n rhaid gwranddo arnynt yn ystod y trafodaethau. Gallai setliad Brexit sy'n gweithio i Loegr yn unig fod yn drychinebus i economi Cymru.

Pleidleisiodd Senedd yr Alban o 90 i 34 i [wrthwynebu tanio Erthygl 50](#) yn San Steffan yr un wythnos. Yn dilyn dyfarniad y Goruchaf Lys nad oes [dyletswydd gyfreithiol i ymgynghori â'r deddfwrfeydd datganoledig](#) cyn tanio Erthygl 50, symbolaidd i raddau oedd y bleidlais hon. Ond y mae'n gwneud honiad cychwynnol y Prif weinidog na fyddai'n tanio Erthygl 50 hyd nes '[fod gennym agwedd ac amcanion y DG ar gyfer trafodaethau](#)' yn fwy fyth o addewid gwag. Cyflwynodd Plaid Cymru welliant yn y Cynulliad Cenedlaethol yn gwrthwynebu tanio Erthygl 50 heb sicrwydd y byddai Cymru yn parhau i gymryd rhan yn y farchnad sengl pan fyddwn yn gadael yr UE. Fe'i [trechwyd gan glymblaid](#) o UKIP, Llafur a'r Ceidwadwyr.

Yn ystod dadl y Cynulliad ar y Papur Gwyn, fe gollodd ambell un ei limpyn. Disgrifiodd yr AC Ceidwadol Mark Isherwood y Prif Weinidog fel "Private Frazer gwleidyddiaeth Gymreig" a disgrifio Plaid Cymru fel 'gremlin' sy'n bodoli 'er mwyn gwanhau a rhannu ein hynys trwy ddinistrio ein Teyrnas Unedig'. Cyfaddefodd AC UKIP David Rowlands fod yr ymgyrch Gadael wedi dweud celwydd i ennill y bleidlais Brexit. Dywedodd, "Gallaf eich sicrhau fod y celwyddau a'n dygodd i mewn i'r Undeb Ewropeaidd yn gelwyddau mwy na'r celwyddau hyn sydd wedi ein cymryd allan." Gallwch wyllo ei gyfaddefiad rhyfeddol [yma](#).

Fe roddodd y Gweinidog Brexit, David Jones AS, [dystiolaeth i Bwyllgor Materion Allanol y Cynulliad yr wythnos diwethaf](#). Cafodd ei gwestiynu ynglŷn â'r posibilidod o ffin galed ar gyfer tollau rhwng Cymru ac Iwerddon a'r effaith allai hynny gael ar borthladdoedd Cymreig. Ei ateb i gwestiwn Steffan Lewis AC ynglŷn ag a fyddai archwiliadau ffin a thollau yng Nghaerdydd a phorthladdoedd eraill, oedd "cawn weld". Cyfaddefodd hefyd nag oedd wedi rhoi "unrhyw ystyriaeth o gwbl" i'r syniad o sefydlu strwythur newydd i lywodraethu marchnad fewnol y Deyrnas Gyfunol a'i fod "heb ei berswadio" gan alwad allweddol y Papur Gwyn rhwng Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru: sefydlu Cyngor Gweinidogol newydd er mwyn hwyluso cydweithredu a datrys anghydfodau mewn meysydd polisi.

[Fe wnaeth arolwg gan Siambrau Masnach Prydain](#) ganfod bod hanner y busensau a holwyd yn disgwyl gweld cynnydd ym mhrisiau eu cynnyrch a'i gwasanaethau dros y 12 mis nesaf. Pan wnaeth mwyafrif pobl Cymru bleidleisio i adael yr UE y flwyddyn ddiwethaf, wnaethon nhw ddim pleidleisio o blaid diberfeddu ein heconomi, niweidio'n busnesau a cholli swyddi. Nid yw Brexit hyd yn oed wedi digwydd eto, ond rhybuddiodd Steffan Lewis AC fod ei gost am ddechrau taro pcedi pobl yn fuan.

O Senedd Ewrop

gan Jill Evans ASE & a Thîm Plaid Cymru Ewrop



Yn ystod y sesiwn lawn yn Strasbourg y mis hwn, fe wnaeth ASEau gymeradwyo y fargen fasnachu **CETA** rhwng yr UE a Chanada o 408 pleidlais i 254, gyda 33 yn ymatal. Fe wnaeth Jill bleidleisio yn erbyn y cytundeb gan ei bod hi'n anghytuno gyda'r ffordd mae marchnadoedd ar gyfer gwasanaethau, buddsoddiannau a chynnyrch yn cael eu hagor lan heb osod safonau cymdeithasol ac amgylcheddol cryf. Dyw'r ffaith ein bod yn gadael yr UE ddim yn golygu na fydd CETA yn effeithio arym ni yma yng Nghymru. Mae David Davis, gweinidog Llywodraeth y DG dros adael yr UE wedi galw CETA "yn fan cychwyn perffaith i'n trafodaethau gyda'r Comisiwn". Ffars yw hyn, am sawl rheswm. Yn gyntaf, bu'r drafodaeth i lunio CETA yn hirfaith a chymhleth, gan gymryd saith mlynedd i gwblhau. Yna, wynebodd sawl rhwystr, gan gynnwys cael ei atal gan y senedd Walŵnaidd. Mae'n dra tebygol y byddai cytundeb masnach tebyg i CETA i'r DG yn wynebu llawer o'r un rhwystrau. Hefyd, nid yw CETA yn ymdrin â phob gwasanaeth, megis bancio, ac y mae'n gosod rheolau tarddiad llym iawn. Wrth gwrs, yr hyn mae David Davis yn obeithio fydd yn digwydd ydi y byddai y dadreoleiddio a phreifateiddio sy'n cael ei annog gan CETA yn mynd hyd yn oed ym mhellach mewn bargaen rhwng y DG a'r UE, rhywbeth y dylem ni gyd fod yn bryderus yn ei gylch.

Cafodd Jill gyfarfod gyda chynrychiolwyr **NFU Cymru** yr wythnos ddiwethaf i drafod oblygiadau gadael yr UE ar ffermwyr yng Nghymru. Buont yn amlygu'r angen am fynediad di-dariff i'r Farchnad Sengl Ewropeaidd fel rhywbeth sydd o'r pwys mwyaf i unrhyw fargen fasnach y cytunir arni rhwng y DG a'r UE. Mae hyn unwaith eto yn tanlinellu peryglon polisi Brexit caled byrbwyll llywodraeth y DG, a allai weld ffermwyr Cymru yn gorfod masnachu ar dariffau 51% yr WTO, a fyddai'n eu prisio allan o'r farchnad yn syth. Dangosir eto mai Papur Gwyn Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru yw'r cynllun mwyaf diogel a rhesymol er mwyn sicrhau dyfodol Cymru.

Mae nifer o **adroddiadau** wedi cael eu drafftio gan bwyllgorau yn Senedd Ewrop ynghylch Brexit, gan amlygu nifer o faterion sydd yn wynebu eu gwaith. Mae'r pwyllgor cyflogaeth, er engraifft, yn amlygu'r ffaith bod 27,000 o bobl sy'n croesi un o ffiniau'r DG ar gyfer cyrraedd eu gwaith, neu sy'n rhannu eu hamser gwaith rhwng y DG a gwledwriaeth arall sy'n aelod o'r UE. Mae'r un adroddiad yn nodi y bydd angen craffu ar 20,833 o ddeddfau UE o fewn y terfyn amser o ddwy flynedd ar ôl tanio Erthygl 50. Yn ei adroddiad mae'r Pwyllgor Materion Economaidd ac Ariannol wedi adnabod 16 darn o ddeddfwriaeth sydd yn yr arfaeth ym meysydd bancio, marchnadoedd cyfalaf a threthu a allai fod

angen eu hail-lunio, yn ddibynnol ar ganlyniad negodi. Mae'r ffigyrau hyn yn dangos maint anhygoel y gwaith sydd o'n blaenau.

Bydd y gwaith ym Mrwsel yn canolbwyntio fwy fyth ar Brexit dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf **wrth i'r Senedd ddechrau ymwneud fwyfwy â'r broses**. Wrth gwrs, mae'r UE dipyn yn fwy democrataidd nag y mae'r wasg Brydeinig yn honni, ac felly bydd Senedd Ewrop yn ymwneud â'r holl broses drwyddi draw a byddant yn cynnal dadl cyn pleidleisio ar y cytundeb terfynol rhwng yr UE a'r DG. Bydd rôl Senedd Ewrop yn y broses o adael yr un fath â'r hyn a sefydlwyd ar gyfer cytundebau derbyn yn Erthygl 49 Cytundeb Lisbon: ceisir cydsyniad yr ASE wedi i'r trafodaethau ddod i ben a chyn eu terfynu trwy lofnod y Cyngor.

Newyddion o'r Brifddinas Imperialaidd

gan Lefarydd Brexit Plaid Cymru yn San Steffan Jonathan Edwards AS a'r Tîm



Mae Mesur Erthygl 50 (Mesur i roi'r hawl i'r Llywodraeth danio Erthygl 50) wedi pasio trwy Dŷ'r Cyffredin heb welliannau. 498 v 114 oedd canlyniad y bleidlais. Cyhoeddodd Jonathan [y datganiad hwn](#) mewn ymateb i'r bleidlais derfynol.

Ffars oedd y broses o gael y mesur drwodd. Fel arfer, fe geid ail ddarlleniad, cyfnod pwyllgor, trydydd darlleniad a chyfnod adroddiad - pedwar cam er mwyn craffu, cwestiynu a sicrhau gwelliannau hanfodol - ond oherwydd bod y Llywodraeth yn benderfynol o gael hyn drwodd mewn pryd i danio Erthygl 50 erbyn eu terfyn amser hwy o ddiwedd Mawrth, ni wnaethant ganiatáu unrhyw amser am gyfnod adroddiad, a bod yr amser a neilltuwyd i bob cam arall mor dynn fel i bleidleisiau ar y cyfnod pwyllgor gymryd yr holl amser ar gyfer y trydydd darlleniad. Canlyniad hyn yw Mesur brysiog na chraffwyd yn iawn arno.

Yn ystod y dadleuon ar yr ail ddarlleniad, Llafur a'r Torïaid oedd flaenaf yn siarad. Gwnaeth y Llefarydd osgoi cornel yr SNP/Plaid/DemRhydd/Gogledd Iwerddon gymaint ag y gallai, ond wedi aros yn y siambr am bron i wyth awr cyn cael eu galw, ymhen hir a hwyr cafodd Liz Saville Roberts a Hywel Williams wneud areithiau byrion iawn.

Fe wnaethom gyflwyno gwelliant rhesymedig i wrthod rhoi ail ddarlleniad i'r Mesur gan i'r Llywodraeth fethu â sicrhau parhad mynediad llawn a dirwystr i'r Farchnad Sengl Ewropeaidd, ond ni chafodd ei ddethol gan y Llefarydd. Fodd bynnag, fe ddewiswyd gwelliannau tebyg gan bleidiau eraill,

ac fe wnaethom bleidleisio drostynt hwy ac yn erbyn y Llywodraeth. [Cyhoeddodd Hywel ddatganiad yn esbonio'r safbwynt hwnnw ar y diwrnod.](#)

Wedi'r ail ddarlleniad, cyhoeddodd Llywodraeth y DG eu papur gwyn a gadarnhaodd y cyfan oedd yn araith y Prif Weinidog. Byddwn yn gadael y farchnad sengl a'r undeb tollau ac yn ceisio taro bargaen ar gytundeb masnach rydd unswydd gyda'r farchnad sengl. Parhad ein cysylltiadau economaidd gyda'r cyfandir fu prif flaenoriaeth Plaid Cymru wrth drafod Brexit, felly roedd y Papur Gwyn hwn yn cadarnhau'r sefyllfa waethaf oll i ni.

Ar gyfer y cyfnod pwyllgor, fe wnaethom gyflwyno 24 o welliannau yn seiliedig yn bennaf ar addewidion a wnaed gan ymgyrch yr Ymgyrch Gadael. Fe wnaethom hefyd gyflwyno gwelliannau i amddiffyn Cymru rhag y gwaethaf o'r Brexit caled hwn. Yr oedd un o'n gwelliannau ar addewid tyngedfennol yr Ymgyrch Gadael y buasem yn parhau i dderbyn y lefelau presennol o gyllid yr UE wedi Brexit. Gwnaed yr addewid hwn mewn [llythyr](#) a anfonwyd gan 13 o ymgyrchwyr Brexit blaenllaw ym mis Mehefin llynedd a ddywedodd "os bydd y cyhoedd yn pleidleisio i adael ar 23 Mehefin, byddwn yn parhau i gyllido rhaglenni'r UE yn y DG."

Wedi i ni gael ar ddeall mai bwrw ymlaen i bleidlais gydag un o'n gwelliannau yn unig a gaem, hwn oedd yr un a flaenoriaethwyd gennym, gan obeithio y byddai'r addewid clir a chyhoeddus yn gorfodi'r sawl a'i gwnaeth i bleidleisio drosto ac felly drechu'r llywodraeth.

Lansiwyd ymgyrch yn y cyfryngau cymdeithasol gennym i ddwyn pwysau ynghylch y gwelliant, gyda llawer ledled Cymru a hyd yn oed o wledydd eraill y DG yn trydar eu ASau gyda'r hashnod [#PobCeiniog](#) yn gofyn iddynt gefnogi'r gwelliant.

Yn anffodus, pleidleisiodd pob un a lofnododd y llythyr hwnnw oedd â phleidlais yn erbyn eu haddewid eu hunain. Trechwyd y gwelliant o 267 i 330. Fe wnaethom ryddhau datganiad wedi'r bleidlais honno, a gallwn ddarllen y datganiad [yma](#).

Mewn gwirionedd, gwrthwynebodd Llywodraeth y DG bob un gwelliant, a'u trechu, gan gynnwys yr un ar amddiffyn hawliau dinasyddion yr UE, er bod llawer yn meddwl y buasai'r llywodraeth yn ildio ar hyn.

Os oedd canlyniad y bleidlais yn siomedig, roedd natur y ddadl yn warthus. Galwyd ein gwelliant ar ddiwrnod cyntaf y cyfnod pwyllgor, mewn grŵp o welliannau oedd yn ymwneud â materion datganoledig. Neilltuwyd tair awr i'r grŵp hwn o welliannau ond yn ystod y tair awr hynny, cymerwyd 102 munud gan ASau o Loegr yn ceisio llenwi'r ddadl a'u geiriau i osgoi gyrru'r gwelliannau i bleidlais. Siaradodd dau AS yn unig (John Redwood a Mark Harper) am 45 munud ynghyd ar faterion amherthnasol. Mae fideo o araith John Redwood am Loegr wedi'i uwchlwytho i'n [tudalen Facebook](#).

Yr ydym hefyd wedi uwchlwytho [fideo o John Redwood yn amlinellu ei gynlluniau i daro bargeinion masnach gyda gwledydd sy'n egin-farchnadoedd](#), gan gynnig prynu eu bwyd rhad yn gyfnewid am gael gwell mynediad at eu marchnad wasanaethau lle "mae gennym gynhyrchion y carent eu prynu". Mae'n cael ei herio gan Jonathan Edwards ac eraill trwy ofyn ai awgrymu y mae ein bod yn aberthu ein sector amaethyddol er mwyn buddiannau Llundain, ac nid yw'n gallu ateb.

Wedi'r dadleuon hyn, daeth y bleidlais derfynol yn Nhŷ'r Cyffredin ar y Mesur hwn, ac wedi bod yn dyst i'r ffordd warthus y rhuthrwyd y Mesur drwy'r senedd, doedd gennym ni ddim dewis ond pleidleisio yn ei erbyn. Pasiwyd y Mesur ar Chwefror 9, 2017 diolch yn rhannol i benderfyniad y Blaid Lafur i'w gefnogi er na dderbyniwyd yr un o'u gwelliannau.

Rhyddhawyd datganiad gennym wedi'r bleidlais, a gallwch ei ddarllen [yma](#).

Mae **Dafydd Wigley** bellach wedi dechrau ar y gwaith o amddiffyn Cymru wrth i'r Mesur wneud ei ffordd drwy **Dŷ'r Arglwyddi**.

Fe wnaeth gyfraniad pwerus yn ystod dadl yr Ail Ddarlleniad, gan erfyn ar lywodraeth y DG i wrando ar yr hyn roedd Cymru yn ei fynnu yn y Papur Gwyn. Mae datganiadau digamsyniol wedi cael eu gwneud gan Lywodraeth San Steffan dro ar ôl tro eu bod nhw'n barod i wrando ar y gweinyddiaethau datganoledig wrth lunio eu cynlluniau Brexit. Ond hyd yn hyn ychydig iawn o dystiolaeth sydd fod hyn yn digwydd.

Mae Cymru angen mynediad llawn a dilyffethair i'r Farchnad Sengl. Dyna oedd sail y Papur Gwyn rhwng Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth y Democratiaid Rhyddfrydol. Mae wedi cyflwyno gwelliannau yn unol â hyn ar gyfer y ddadl yn ystod Cymal Pwyllgor y Mesur.

[Gallwch wyllo araith Dafydd Wigley fan hyn.](#)

Wnawn ni ddim rhoi siec wag i lywodraeth y DG o ran Brexit ac fe wnawn ni ymladd gyda phob mesur o'n gallu i sicrhau dyfodol Cymru.

Dilynnwch [@JonathanPlaid](#) a [@Plaid_Cymru](#) ar Twitter er mwyn cael y newyddion diweddera' o waith y Grŵp Seneddol ar Brexit.

Y camau nesaf yn San Steffan

Mae'r Mesur bellach wedi cwblhau ei daith trwy Dŷ'r Cyffredin ac wedi cychwyn ar ei hynt trwy Dŷ'r Arglwyddi.

Yn dilyn yr un amserlen ag yn Nhŷ'r Cyffredin, bydd yr ail ddarlleniad yn ystod yr wythnos gyntaf a'r cyfnod pwyllgor a'r trydydd darlleniad yn yr ail. Unwaith eto, ni fydd cyfnod adroddiad.

Yn wahanol i Dŷ'r Cyffredin, nid yw'r Llefarydd yn dewis gwelliannau. Gall unrhyw arglwydd gyflwyno gwelliannau ar sail y cyntaf i'r felin. Yr ydym ar hyn o bryd yn gweithio gyda Dafydd Wigley i ddrafftio dau welliant i'w cyflwyno cyn diwedd yr wythnos er mwyn sicrhau ein bod mor uchel ag sydd modd ar y rhestr o welliannau:

- Un yn galw am barhad mynediad llawn a dirwystr i'r Farchnad Sengl trwy gyfranogi yn yr EEA a/neu aelodaeth o EFTA.
- Ail ar ganiatáu myfyrwyr i barhau i astudio dramor ac i fyfyrwyr yr UE barhau i astudio yma

Mae mwy o siawns i'r llywodraeth gael ei threchu yn Nhŷ'r Arglwyddi. Mae sôn y bydd y llywodraeth yn colli ar adael i ddinasyddion yr UE sydd eisoes yn byw yma i aros yma. Mae'r Arglwyddi hefyd yn rhoi llawer o bwys ar addewidion manifesto ac un addewid ym manifesto'r Ceidwadwy oedd aros yn y Farchnad Sengl.

Bydd trechu'r llywodraeth ar unrhyw rai o welliannau'r llywodraeth yn gorfodi'r Mesur yn ôl i Dŷ'r Cyffredin.

Annex 1 – Amendments pushed to a vote

Amendment	Put Forward By	Final Vote Count
NC110: Give MPs a veto on the final deal	Labour	326-293 against.
A11: Prove that the NHS will get £350m a week	Labour	337-288 against.
A43: Second EU referendum	Liberal Democrats	340-33 against.
NC180: Remain in the EU if Parliament failed to back an exit deal	SNP	336-88 against.
NC7: Force ministers to have regard to maintaining all anti-tax avoidance laws that currently exist in the EU	Labour	336-289 against.
NC4: Devolved nations approval before Article 50 can be triggered	Labour	332-62 against.
NC2: Protecting EU workers' rights	Labour	336-291 against.
NC3: Prime Minister must update Parliament every two months.	Labour	333-284 against.
NC158: Report to Welsh Assembly outlining the effect of withdrawal on Welsh finances.	Plaid Cymru	330-267 against.
NC5: Require the Treasury to publish its impact assessment of Brexit before Article 50 was triggered.	Labour	337-281 against.
NC143: Force the government to estimate how much Britain would have to continue to pay to the EU.	SNP	333-79 against.
A29: Consult Gibraltar before Article 50	Labour	338-288 against
A86: Preserve rights established by the EU, and under the Good Friday Agreement, for people living in Northern Ireland	SDLP	327-288 against.
NC57: Guarantee EU citizens already in the UK can stay past 2019.	Labour	332-290 against.
NC192: Stay in Euratom	Labour	336-287 against.
NC26: The process of withdrawal cannot be started until the Joint Ministerial	SNP	against.

Committee on European Negotiation has agreed upon a process.		
--	--	--

Annex 2 – Amendment NC158 record

Voted AYE

Kevin Brennan (Cardiff West)	Ian C Lucas (Wrexham)
Chris Bryant (Rhondda)	Madeleine Moon (Bridgend)
Wayne David (Caerphilly)	Jessica Morden (Newport East)
Geraint Davies (Swansea West)	Albert Owen (Ynys Mon)
Stephen Doughty (Cardiff South & Penarth)	Christina Rees (Neath)
Chris Elmore (Ogmore)	Nick Smith (Blaenau Gwent)
Chris Evans (Islwyn)	Jo Stevens (Cardiff Central)
Paul Flynn (Newport West)	Mark Tami – (Alyn and Deeside)
Nia Griffith (Llanelli)	Nick Thomas-Symonds (Torfaen)
David Hanson (Delyn)	Jonathan Edwards (Carmarthen East & Dinefwr)
Carolyn Harris (Swansea East)	Liz Saville Roberts (Dwyfor Meirionnydd)
Gerald Jones (Merthyr Tydfil and Rhymney)	Hywel Williams (Arfon)
Susan Elan Jones (Clwyd South)	Mark Williams (Ceredigion)
Stephen Kinnock (Aberavon)	

Voted NO

Guto Bebb (Aberconwy)
Alun Cairns (Vale of Glamorgan)
Stephen Crabb (Preseli Pembrokeshire)
Byron Davies (Gower)
Chris Davies (Brecon and Radnorshire)
David T C Davies (Monmouth)
James Davies (Vale of Clwyd)
Glyn Davies (Montgomeryshire)
Simon Hart (Carmarthen West and South Pembrokeshire)
David Jones (Clwyd West)
Craig Williams (Cardiff North)

Annex 3 – All Plaid Cymru amendments

Second Reading

That this House declines to give a Second Reading to the European Union (Notification of Withdrawal) Bill as the Government has failed to ensure continued full and unfettered access to the European Single Market, through participation in the EEA and/or membership of the EFTA; and has set out no requirement for the implementation of Article 50 to be endorsed by the devolved Parliaments.

Hywel Williams
 Liz Saville Roberts
 Jonathan Edwards
 Peter Grant
 Caroline Lucas
 Mark Durkan
 Margaret Ritchie
 Alasdair McDonnell

Committee Stage

Amendments for Day 1

NC67	Hywel Williams	PM must commit to automatically granting indefinite leave to remain in the UK for EU citizens already lawfully resident in Wales
NC158* Pushed to a vote	Hywel Williams	Report for Welsh Assembly outlining the effect of withdrawal on Welsh finances, before triggering Article 50
NC159	Hywel Williams	Consultation exploring a differentiated agreement for Wales to remain in EEA before triggering Article 50
NC160	Hywel Williams	Endorsement of the final deal for withdrawal from the EU by the devolved assemblies.
NC162	Hywel Williams	Review into UK Constitution when leaving the European Union before triggering Article 50
90	Hywel Williams	Report into the powers repatriated from the which do not fall within the Reservations listed in Schedule 7A of the Government of Wales Act 2006 before triggering Article 50

Amendments for Day 2 and 3

NC70	Hywel Williams	Free trade deal between Wales and EU
90	Hywel Williams	Report into the powers repatriated from the which do not fall within the Reservations listed in Schedule 7A of the Government of Wales Act 2006 before triggering Article 50
93	Hywel Williams	Continue to allow EU healthcare professionals to travel to the UK and work freely within the UK.
NC58	Hywel Williams	Education funding in Wales. Prime Minister must commit £23 million of additional funding to the Welsh Government to improve conditions in school.
NC59	Hywel Williams	Health and scientific research funding for Welsh universities.

NC60	Hywel Williams	PM must commit to £17.5 million a week of extra funding for NHS Wales.
NC61	Hywel Williams	PM must commit to maintaining all current funding from the European Union for universities, scientists, family farmers, regional funds, and cultural organization in Wales.
NC62	Hywel Williams	PM must commit to maintaining the level of financial support for farmers and the environment in Wales.
NC63	Hywel Williams	PM must commit to additional funding for the Welsh Government to spend on the building of new roads.
NC64	Hywel Williams	PM must commit to improving the railways in Wales.
NC65	Hywel Williams	PM must commit to improving Cardiff and other regional airports.
NC66	Hywel Williams	PM must commit to financially supporting the steel industry in Wales.
NC67	Hywel Williams	PM must commit to automatically granting indefinite leave to remain in the UK for EU citizens already lawfully resident in Wales
NC68	Hywel Williams	PM must commit to negotiating a UK-EU treaty to continue to cooperate on counter-terrorism measures for the security of Wales.
NC69	Hywel Williams	PM must outline a plan to raise wage levels in Wales.
NC71	Hywel Williams	PM must commit to ensuring Wales' trade with the European Union is not interrupted by the process of leaving the European Union.
NC72	Hywel Williams	PM must commit to maintaining the current level of trade Wales has with the European Union.
NC73	Hywel Williams	PM must commit to maintaining the common travel area between Wales and Ireland without security checks.
NC74	Hywel Williams	PM must commit to increasing financial aid for businesses in Wales.
NC75	Hywel Williams	PM must abolish current tax avoidance measures and work to reclaim that which is owed to the UK.